I Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler adroddiad blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

| | |
|---|---|
| Y camau gweithredu a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol | **Adnewyddu mapio teithio llesol CNPT - i gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**<br>Cyflwynwyd Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) y cyngor i Lywodraeth Cymru ar 23 Rhagfyr 2021 ac fe'i cymeradwywyd ar 3 Awst 2022. Mae gwaith wedi'i wneud ar gyhoeddi'r mapiau yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol (CDTLl) LlC, ac mae hyn wedi cynnwys diweddaru'r gwedudalennau teithio llesol (https://www.npt.gov.uk/activetravel?lang=cy-gb) sy'n cysylltu â MapDataCymru a mapiau pdf y gellir eu hargraffu.<br><br>Hyrwyddwyd y MRhTLl cymeradwy yn y South Wales Evening Post ac ar gyfryngau cymdeithasol.<br><br>Er mwyn darparu rhagor o wybodaeth gefndir i'r MRhTLl diwygiedig, mae'r cyngor wedi cynnal oddeutu 750 o archwiliadau teithio llesol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ychwanegu canlyniadau'r archwiliad at MapDataCymru (mewn cydweithrediad â swyddogion perthnasol.)<br><br>Mae gwaith wedi dechrau i ddiweddaru'r 'cyfleusterau cysylltiedig' ar MRhTLl Castell-nedd Port Talbot a bydd yn parhau'r flwyddyn ariannol nesaf.<br><br>**Hyrwyddo ac Ymgynghori**<br>Lansiwyd cystadleuaeth creu poster i ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth o deithio llesol ymhlith plant ysgol a'u rhieni. Enillodd y ddau gais buddugol £500 yr un i'w ddefnyddio ar gyfer gwelliannau teithio llesol yn eu hysgol.<br><br>Er mwyn helpu i annog mwy o bobl i feicio, lansiodd y cyngor gynllun lle caiff sefydliadau |

| | |
|---|---|
| | gyfle i wneud cais am hyd at 4 rhesel feiciau am ddim mewn lleoliadau lle mae angen parcio beiciau – fel gweithleoedd, cyfleusterau hamdden neu amwynderau a ddefnyddir gan y cyhoedd. Cafodd y cynllun hwn ei hyrwyddo ar orsaf radio leol drwy ymgyrch hysbysebu y talwyd amdani.<br><br>Cynhyrchwyd darluniau sy'n addas i ddefnyddwyr (yn ddwyieithog) o gynlluniau arfaethedig Tonna a Bryn i Goetre i'w defnyddio mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.<br><br>**Monitro a Gwerthuso** – Cynhaliwyd arolygon cyfrif traffig i bennu nifer y cerddwyr a beicwyr sy'n defnyddio llwybrau yn ogystal â chyflymder a swm y traffig.<br><br>**Cyswllt Mewnol**<br>Mae cyswllt parhaus â chydweithwyr o'r adrannau Cynllunio, Priffyrdd, Diogelwch Ffyrdd, Gofal Strydoedd (cynnal a chadw llwybrau) a Chyfathrebu i annog hyrwyddo a darparu ar gyfer teithio llesol fel rhan o ddatblygiadau newydd.<br><br>**Tîm Diogelwch Ffyrdd**<br>Cynhaliodd y Tîm Diogelwch Ffyrdd nifer o weithgareddau i hyrwyddo Teithio Llesol gan gynnwys:<br><br>• **Cyclecraft (Hyfforddiant beicio ar y ffordd)**: 14 ysgol, 402 o ddisgyblion<br><br>• **Addysg Dosbarth Cynradd:** 18 ysgol, 998 o ddisgyblion<br><br>• **Ymwybyddiaeth Feicio (Blwyddyn 3-6)**: 24 ysgol, 1,600 o ddisgyblion<br><br>• **Hyfforddiant Sgwteri (pob oedran)**: 8 ysgol, 100 o ddisgyblion<br><br>• **Hyfforddiant Beiciau Cydbwysedd (Meithrin a Derbyn)**: 12 ysgol, 280 o ddisgyblion<br><br>• **Beicio Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 1 a 2)**: 30 ysgol, 736 o ddisgyblion |

| | |
|---|---|
| | <ul><li>**Troeon Diogelwch (pob oedran)**: 5 ysgol, 192 o ddisgyblion</li><li>**Kerbcraft (Hyfforddiant i Blant sy'n Cerdded, Blwyddyn 2)**: 47 ysgol, 1,198 o ddisgyblion</li><li>**The Big Pedal (y mae CNPT yn cefnogi Sustrans)**: 7 ysgol, 2,000 o deithiau</li><li>**Criw Croch**: 51 ysgol, 1,800 o ddisgyblion</li></ul>Mae rhai ffigurau'n is na blynyddoedd blaenorol oherwydd absenoldeb swyddog CNPT sydd fel arfer yn darparu hyfforddiant i'r ysgolion cynradd.<br><br>[Sylwer: mae ffigurau ysgolion yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd Medi 2022 - Gorffennaf 2023.] |
| Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | **Southdown Road** – Gwnaed gwelliannau i'r llwybr teithio llesol ar Southdown Road i wella cerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd.<br>**Scarlett Ave / Purcell Ave** – Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch gweithredu mesurau lleihau cyflymder ar Scarlett Ave / Purcell Ave. Nid oedd y cyhoedd yn cefnogi'r cynnig.<br>**Cyswllt Ysbyty Tonna** – Defnyddiwyd cyllid i ddatblygu dyluniad y llwybr teithio llesol yn Heol Uchaf Tonna. Bydd y cynnig yn cysylltu'r ysbyty a'r gymuned leol â'r siop a'r cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal.<br>**Castell-nedd i Gimla** – Defnyddiwyd cyllid i ddatblygu dyluniad y llwybr teithio llesol rhwng Castell-nedd a Chimla<br>**Gorsaf Castell-nedd i RhBC 47** – Mae asesiad opsiynau ar gyfer gwelliannau rhwng y rhwydwaith beicio cenedlaethol (ar hyd camlas Castell-nedd) a'r orsaf wedi'i gynnal.<br>**Pont Newbridge Road** – Ystyriwyd dichonoldeb i adeiladu llwybr teithio llesol ar Newbridge Road a Dock Road. |

| | |
|---|---|
| | **Prif Gynllun Sandfields** – Mae gwaith blaenoriaethu a dichonoldeb wedi'i wneud i welliannau i'r rhwydwaith teithio llesol yn ardal Sandfields.<br>**Cyswllt Baglan Way** – Mae dyluniad llwyfannau arafu uchel wedi'i baratoi ynghyd ag ymgysylltu â thirfeddianwyr.<br>**Dŵr-y-Felin** – Defnyddiwyd cyllid i edrych ar ddichonoldeb troi'r llwybr cerdded ar Dŵr-y-Felin Road yn llwybr defnydd a rennir. |
| Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau perthnasol yn y flwyddyn lawn flaenorol. | Yn 2022/23 dyfarnwyd £716,000 o gyllid craidd i Gastell-nedd Port Talbot ar gyfer gwaith dylunio pellach, mân welliannau, trafodaethau tir a hyrwyddo cynlluniau. |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu trosolwg o'r isadeiledd a gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant awgrymedig ar gyfer llwybrau a chyfleusterau theithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, a ariannwyd neu a ariannwyd yn rhannol gan drydydd partïon. | - £0 |
| Hyd y llwybrau newydd:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | - 0m |
| Hyd y llwybrau a wellwyd:<br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | Mae Southdown Road, Sandfields, Port Talbot wedi'i gwella. Llwybrau'r dyfodol: Bydd FR-PT-SU065 a FR-PT-SU064 yn cael eu hychwanegu at y map llwybrau presennol.<br><br>Cyfanswm hyd y ddau lwybr hyn yw tua. 0.6 milltir o lwybr defnydd a rennir newydd. |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | **Tynnu/Amnewid Mesurau Rheoli Mynediad** (Cam 4) – cafodd 9 |

| | |
|---|---|
| | rhwystr nad oeddent yn cydymffurfio eu tynnu neu eu hamnewid gan osod rhwystrau a oedd yn cydymffurfio yn eu lle.<br>**Seddi** – Cynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid i benderfynu ble mae angen gosod seddi ar y rhwydwaith. Mae lleoliadau arfaethedig wedi'u hasesu a'u blaenoriaethu a gosodwyd seddi mewn 3 lleoliad.<br>**Mannau Storio Beiciau** – Mae map rhyngweithiol wedi'i greu i ddangos lle mae mannau storio beiciau ar gael yn CNPT. Bydd y map yn cael ei roi ar wedudalen y cyngor, gan ganiatáu i breswylwyr neu ymwelwyr weld lluniau a lleoliadau'r mannau storio beiciau sydd ar gael cyn teithio.<br><br>Mae mannau storio beiciau ar gael yng: Nghanolfan Siopa Aberafan, Traeth Aberafan a Gorsaf Drenau Port Talbot. Mae cylchynau beicio hefyd wedi'u gosod yn y Cymer ger yr ystafelloedd lluniaeth, yn lle'r stand storio beiciau a oedd wedi dadfeilio. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd ar gael fel copi caled ar gais, yn unol ag arweiniad statudol y Ddeddf Teithio Llesol (rhifyn 2021).

Enw'r Prif Weithredwr: Karen Jones

Dyddiad y'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru: 22/09/2023